---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 21ain Tachwedd 2017.**

**Presennol:** Cyng. Dyfed Williams (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Beryl Salisbury

**Hefyd yn Bresennol:** Sharon Wyn Parry

**1. Ymddiheuriadau** – Dim

**2. Datganiad o ddiddordeb:** Dim

**3. Cofnodion cyfarfod o 17eg Hydref 2017:**
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Victor Owen.)

**4.** Materion yn codi o'r cofnodion:

1. **Cae Chwarae**: Cae Chwarae: Cafwyd dyfynbris gan McVenture Play Co. Llangefni ar gyfer atgyweirio ac ailosod yr arwyneb diogelwch - £12,495 a TAW ar gyfer codi'r teils rwber a rhoi wyneb 'wet pour' yn eu lle, roedd gwarant o 5 mlynedd ar hyn, a £1,439 a TAW am lenwi'r bylchau roedd gwarant o 6 mis am wneud hynna.
   Cytunwyd i ofyn am brisiau eraill ac ail drafod mis nesaf.

2. **Llochesi Fws**: Penderfynwyd gofyn i William Evans a Sons Ltd osod bolltau newydd ar y lloches bws gyferbyn â'r eglwys ar Ffordd Minffordd a chytunwyd i dalu gweddill yr arian sydd yn ddyledus iddynt.

   Nodwyd fod nifer o sylwadau wedi eu gwneud ynghylch cyflwr y lloches bws ar gyffordd Lôn Minffordd Road / Lôn Dinam . Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Asiantau Rheoli eto i esbonio na all y Cyngor Cymuned ei drin gan nad yw'n eiddo'r Cyngor ac y mae'n sefyll ar dir preifat.

3. **Seddi Gwag:** penderfynwyd cyfethol i'r seddi gwag.

4. **Gwaith cynnal - Stad Treifan** - cytunwyd y byddai'r clerc yn gofyn i Dylan Roberts a fyddai yn fodlon cael golwg ar y wal.

5. Lon Cymyran - Lon Cymyran - Nodwyd bod CSYM wedi cadarnhau bod y ffordd yn cael ei arolygu ar y cyd â'r Llu Awyr bob mis ac er bod y Llu Awyr yn annhebygol o gytuno i ail-wynebu'r lon ar ei hyd fydd yr Adain Briffyrdd yn pwyso

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….

am gymaint o waith â phosib cael ei wneud.

6. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim.

**5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:**

Penderfyniadau Cynllunio

32C203 – Berley, Ffordd Cymyran – Cais llawn i addasu ac ehangu -caniatwyd.

2C147A/ENF - Fferam, Caergeiliog - Cais llawn ar gyfer cadw amryw ddatblygiadau marchogaeth – caniatwyd.

Ceisiadau Cynllunio

32C204 – Baron Hill, Llanfair yn Neubwll – Cais llawn ar gyfer codi cytiau cwna a cathdy ar gyfer defnydd busnes, gosod carthbwll ynghyd â chreu mynedfa newydd i gerbydau – dim gwrthwynebiad cyn belled y bod ymgynghoriad â chymdogion cyfagos.

32C39F – Pen y Llyn Caravan Park, Llanfair yn Neubwll – Cais llawn ar gyfer ehangu'r maes carafanau teithiol cyfredol er mwyn darparu 15 o leiniau ychwanegol i garafanau teithiol – dim gwrthwynebiad.

32C205 – Gwaelod Bach – Cais llawn ar gyfer dymchwel yr annedd presennol ac adeliadu annedd newydd yn ei le yngyd a mynediad newydd.

**6. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

1. blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - nodwyd
2. Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – Rhaglen 21.11.2017 – neb ar gael i'w fynychu hwn gan ei fod yr un noson â chyfarfod y Cyngor Cymuned.
3. Penodi dau Aelod o'r Cyngor Tref / Cymuned ar Bwyllgor Safonau CSYM - Nodwyd bod Cyng. Iorweth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran a'r Cyng. Keith Roberts o Gyngor Cymdeithas Trearddur wedi eu hethol i eistedd ar y Pwyllgor Safonau.
4. Hyfforddiant a Datblygiad ar gyfer Cynghorwyr a Chlercod Tref / Cymuned - llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn annog Cynghorau Cymuned i sicrhau fod digon o arian ar gael ar gyfer hyfforddi'r clerc yn ogystal ag Aelodau.

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….

**7. Materion Ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.4.2017 i 30.9.2017 ynghyd â Chysoniad Banc a Datganiadau Banc.

**Yn y banc ar 21.11.2017 Cyfrif Cyfredol £10,651.47 Cyfrif Cadw £3,922.28**

**Taliadau i'w gwneud**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Hydref) | £179.92 | HMRC (TWE) | £45.00 |
| GMS | £45.60 | William Evans and Sons Ltd. | £510.00 |

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gordon Owen.)**

8. **Cyfrifon 2017/18**

Roedd yr arian a neilltuwyd yn y praesept ar gyfer gwneud gwaith ar yr offer chwarae heb ei wario eto ond nodwyd bod y Cyngor yn wedi cadw digon wrth gefn i ganiatáu gwaith atgyweirio mawr. Nodwyd hefyd y bydd angen rhoi arian heibio i gynorthwyo gyda chynnal a chadw'r Neuadd y Pentref i sicrhau ei fod yn aros mewn trefn dda fel yr unig adeilad cymunedol yn yr ardal.

9. **Rhoddion - yw ystyried mis nesaf**

**10. Gohebiaeth Eraill: fe nodwyd y canlynol**

1. Ymgynghoriad Trwydded Wylfa Newydd
2. Dŵr Cymru - Diweddariad Gwaith Adnewyddu
3. Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref – Digwyddiadau Ymgynghori

**11. Unrhyw fater arall**

Nodwyd bod y Cyng. Dyfed Williams a Cyng. Beryl Salisbury wedi mynychu digwyddiad preifat gyda Chomander Camp Fali. Gofynnwyd iddynt nodi hyn yn y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

**12. Cyfarfod nesaf 16eg o Ionawr 2018**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd…………………………….